Faint o doiledau y dylid eu cael mewn gweithle?

Y ddeddfwriaeth berthnasol yw Rheoliadau'r Gweithle (Iechyd, Diogelwch a Lles) 1992. Mae Rheoliad 20, Cyfleusterau glanweithiol, yn nodi:

1. Dylid darparu cyfleusterau glanweithiol addas a digonol mewn lleoedd hygyrch.
2. Heb effeithio ar gyffredinolrwydd paragraff (1), ni fydd cyfleusterau glanweithiol yn addas-
   (a) oni bai bod yr ystafelloedd sy'n eu cynnwys wedi'u hawyru a'u goleuo'n ddigonol;
   (b) oni chedwir y toiledau a'r tai bach yn lân ac mewn cyflwr trefnus; ac
   (c) oni ddarperir ystafelloedd ar wahân yn cynnwys cyfleusterau i ddynion a merched cyn belled â bod pob cyfleuster mewn ystafell ar wahân a bod modd cloi'r drws o'r tu mewn.

Â'r Cod Ymarfer yn ei flaen i roi'r lleiafswm o gyfleusterau:
(Mae nifer y bobl yn y gwaith a ddangosir yng ngholofn 1 yn cyfeirio at yr uchafswm sy'n debygol o fod yn y gweithle ar unrhyw adeg)

Nifer y toiledau a'r basnau ymolchi at ddefnydd cymysg (neu ferched yn unig):

Nifer y bobl yn y gwaith	Nifer y toiledau	Nifer y basnau ymolchi
1-5	1	1
6-25	2	2
26-50	3	3
51-75	4	4
76-100	5	5

Toiledau a ddefnyddir gan ddynion yn unig:

Nifer y dynion yn y gwaith	Nifer y toiledau	Nifer yr wrinalau
1-15	1	1
16-30	2	1
31-45	2	2
46-60	3	2
61-75	3	3
76-90	4	3
91-100	4	3

Cyfeiriadau:
L24, Workplace health, safety and welfare, approved code of practice and guidance, (ISBN 0717604136 – ar gael gan HSE Books).

- **Welfare at work – taflen am ddim**